



Gwybodaeth am wasanaethau Cyswllt â Phlant

Mae canolfannau cyswllt â phlant yn amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n cynnig lleoedd diogel, cyfeillgar a niwtral lle gall teuluoedd sydd wedi gwahanu weld eu plant er mwyn dechrau/aildechrau perthnasoedd ac i unrhyw gyswllt fod yn ddiogel a'r hyn sydd orau i'r plentyn. Mae canolfannau cyswllt yn opsiwn tymor byr cyn ystyried os gall trefniadau barhau y tu allan i'r ganolfan gyswllt a sut y dylid gwneud hynny.

Y Trefniadau

Bydd Cafcass Cymru yn atgyfeirio i ganolfan gyswllt â phlant lle:

- Mae'r llys wedi gorchymyn hynny neu gwnaed penderfyniad gan y llys i atgyfeirio mewn Gwrandawriad Cyntaf Penodiad Datrys Anghydfod (FHDRA).
- Lle mae'n rhan o'n hargymhelliad adroddiad llys.
- a/neu lle mae gennym gyfranogiad achos gweithredol a pharhaus.

- Byddwn yn trefnu i'ch manylion gael eu hanfon i'r ganolfan gyswllt er mwyn trefnu cyswllt.
 - Byddwn dim ond yn cyllido uchafswm o 6 awr o gyswllt.
 - Gall fod hyblygrwydd o ran hyd y sesiynau ar yr amod nad yw cyfanswm nifer yr oriau fesul atgyfeiriad yn uwch na 6.
 - Gall ein staff ymweld â phartion yn y ganolfan ar gyfer ymweliadau arsylwi achlysurol.
- * Y tu allan i hyn, bydd angen i chi wneud eich atgyfeiriad eich hun yn uniongyrchol i ganolfan gyswllt a chwmpasu unrhyw oblygiadau cyllido.

Beth i'w ddisgwyl yn y ganolfan gyswllt

- Mae'r canolfannau yn annibynnol ar unrhyw wasanaeth arall; fe'u cynhelir gan wirfoddolwyr hyfforddedig a chanddynt wiriad manwl gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).
- Mae'r canolfannau'n ceisio creu awyrgylch cynnes, cymdeithasol lle gallwch ymlacio.



- Mae gan y rhan fwyaf o ganolfannau deganau, gemau a llyfrau i blant o bob oedran.
- Os nad ydych am weld eich cyn-bartner gall y ganolfan gyswllt drefnu hyn.
- Dim ond perthnasau a ffrindiau a enwyd ar y ffurflen atgyfeirio a all fynd i ganolfan.
- Caiff canolfannau eu defnyddio gan sawl teulu ar yr un pryd.

Y gwahanol fathau o gyswllt

Cyswllt â chymorth

Mae cyswllt â chymorth i blant yn addas i deuluoedd lle nad oes risg i'r plentyn neu'r rhai o amgylch y plentyn wedi'i nodi. Ni wneir adroddiad ar y cyswllt hwn heblaw am gofnodi dyddiadau ac amseroedd presenoldeb neu os oes angen i'r ganolfan roi gwybod am ymddygiad treisgar, bygythiol neu gamdriniol a welir ganddi. Bydd y cyswllt fel arfer yn digwydd ar yr un pryd â theuluoedd eraill a bydd aelod o staff yn bresennol ar bob adeg os bydd ei angen.



Cyswllt dan oruchwyliaeth

Mae cyswllt plentyn dan oruchwyliaeth fel arfer yn digwydd lle mae risgiau diogelu o amgylch y plentyn wedi'u nodi. Gwneir nodiadau arsylwi o bob sesiwn a chaiff adroddiad ei lunio a'i anfon i Cafcass Cymru ar ddiwedd cyfranogiad y canolfannau. Bydd y cyswllt fel arfer yn digwydd ar yr un pryd â theuluoedd eraill a bydd aelod o staff yn goruchwyllo'r cyswllt yn uniongyrchol.

Manylion Cyswllt

Ffôn - 0300 062 8855

E-bost - cafcasscymru.gwasagomisiynwyd@llyw.cymru

